


# Cenn@d

IONAWR 11 2023

YN CYNNWYS Y GOLEUAD A SEREN CYMRU

RHIF 98

## Wythnos Weddi am Undod Cristnogol, 18–25 Ionawr 2023 – i lawrlwytho'r adnoddau Cymraeg ewch i wefan y [CTBI](http://CTBI)



## Beth yw eciwmeniaeth? Saith rheswm pam y mae'n rhaid i eglwysi weithio gyda'i gilydd

Y Parch. Trystan Owain Hughes, Cyfarwyddwr Datblygu Gweinidogaeth yn yr Eglwys yng Nghymru, sy'n rhannu rhai myfyrdodau am ddyfodol eciwmeniaeth yng Nghymru

Mae eciwmeniaeth wedi newid. Yn fy nhraethawd PhD, fe wnes i ymchwilio i eciwmeniaeth yn y 1960au; bryd hynny, roedd llawer yn rhag-weld dyfodol fyddai'n cynnwys symudiad cyson tuag at undod Cristnogol. Ond erbyn i mi sefydlu Canolfan Genedlaethol Astudiaethau Eciwmeniaidd Cymru gyda'r Dr Noel Davies yn y 1990au, roedd yn dechrau gwawrio arnom nad oedd hyn yn anochel – ond yr oedd yna deimlad o hyd ei fod yn beth da i'r Eglwys a'r gymdeithas fel ei gilydd fod enwadau'n gweithio gyda'i gilydd. Erbyn heddiw, rydyn ni'n byw mewn byd sydd wedi newid, â blaenoriaethau, heriau a gobeithion gwahanol iawn i rai hyd yn oed genhedlaeth yn ôl. Felly, yn sgil hyn, mae angen inni ystyried saith pwynt wrth feddwl am ddyfodol eciwmeniaeth yng Nghymru:

### 1. Mae eciwmeniaeth yn hollol angenrheidiol i ddyfodol ein ffydd.

Rydyn ni'n byw mewn cymdeithas ac iddi obsesiwn â dewis. Ond, yn y cyswllt yma, credaf nad oes gennym ddewis. Nid rhywbeth dymunol inni ei ystyried yw fod Cristnogion yn gweithio gyda'i gilydd. Er mwyn i'r Eglwys oroesi a ffynnu, ac i'r Eglwys fod yn rhodd i'r gymdeithas yng Nghymru, does dim dewis arall, gan adleisio logo Cymdeithas Bêl-droed Cymru – 'Gorau chwarae, Cyd chwarae'. Wedi'r cyfan, ar 'ein tad' rydyn ni'n gweddio, nid 'fy nhad' – rydyn ni'n un teulu yng Nghrist. Drwy wynebu'r dyfodol gyda'n gilydd y gallwn ddod yn fendith wirioneddol, yn ysbrydoliaeth ac yn adnodd i bobl Cymru.

### 2. Mae eciwmeniaeth y dyfodol yn wynebu realiti gwahanol.

Yn y gorffennol, a hynny'n gywir iawn, rydyn ni wedi dadlau bod eciwmeniaeth yn hollol angenrheidiol ar y sail mai dyna'r hyn sy'n



hanfodol yn ôl y Beibl ac yn diwinyddol. Ond, yn y byd heddiw, mae hefyd yn hollol angenrheidiol oherwydd y ffordd y mae'r cenedlaethau iau yn edrych arnom. Mae bron pawb sydd ddim yn Gristnogion (hen ac ifanc), a hyd yn oed y mwyafrif helaeth o Gristnogion ifanc, yn mynegi dryswch ac anghrediniaeth nad ydym yn gweithio gyda'n gilydd. Nid yw llawer o bobl ifanc heddiw'n gwybod beth yw ystyr y gair 'eciwmeniaeth', ond o'm profiad i mewn ysgolion a phrifysgolion, pan fyddan nhw'n sôn am Gristnogaeth, am eciwmeniaeth y byddan nhw'n siarad. Mae coleddu a gwerthfawrogi ein traddodiadau unigryw yn rhan bwysig o fod yn aelodau o'r teulu eciwmeniaidd hwn, ond mae'r ffaith nad ydi'r byd yn gweld ein gwahaniaethau yn her anferth yn ogystal â bendith sy'n ein rhyddhau.

*(parhad ar y dudalen nesaf)*

Cloriannu Cyfraniad y Pab  
Emeritws Bened XVI (1927–2022)  
Tudalen 3

O'r byd a'r betws  
Tudalen 4

Abraham  
Tudalen 6

## Beth yw eciwmeniaeth? Saith rheswm pam y mae'n rhaid i eglwysi weithio gyda'i gilydd

(parhad o dudalen 1)

### 3. Mae dyfodol eciwmeniaeth wedi'i wreiddio yn y gymuned.

Mae eciwmeniaeth dda yn tyfu o lawr gwlad tuag allan – mae'n esblygu o weithredu ymarferol yn ein cymunedau. Mae bod yn rhyw 'felin drafod' sanctaidd yn dieithrio pobl ac yn eu rhannu. Rhaid i eciwmeniaeth wneud gwahaniaeth gwirioneddol ac ymarferol. Yn fy mhrofiad fel offeiriad plwyf ac fel rhywun sydd wedi hyfforddi gweinidogion ordeiniedig a lleygwyr o amrywiol enwadau, mae eciwmeniaeth yn dod yn fyw pan fydd pobl go iawn yn dod at ei gilydd i fyw cariad Duw yn eu cymuned leol – helpu ffoaduriaid, rhoi cymorth i rai sy'n cael trafferthion ariannol, cynnal banciau bwyd, sicrhau bod cynlluniau amgylcheddol yn ffynnu, neu i brotestio yn erbyn gwahaniaethu ac anghydraddoldeb.

### 4. Mae dyfodol eciwmeniaeth yng nghanol bywyd cyhoeddus.

Dim ond gyda'n gilydd y gallwn ni fod yn wirioneddol wrth galon bywyd cyhoeddus yng Nghymru. Yn ddiweddar, fe fues i'n dysgu ar gwrs meistr i gaplaniaid o amrywiol enwadau, ac roedd y caplaniaid hynny (oedd yn gweithio yn y maes iechyd a'r byd milwrol, mewn ysgolion a phrifysgolion) yn dweud wrthyf yn gyson fod pobl mewn sefydliadau a chyrrff eraill, ac eithrio lleiafrif bychan oedd yn anghytuno, yn dal i edrych tuag atom am arweiniad ysbrydol, bugeiliol a moesol. Mae Cymru yn wlad lle ceir dwy brif iaith a llywodraeth sy'n ffynnu. Felly, mae angen i'r presenoldeb eciwmeniaid roi blaenoriaeth i adeiladu perthnasau a pharhau i fod yn ganolog i fywyd Cymru (drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd) fel adnodd ac ysbrydoliaeth – yn y Senedd, mewn ysgolion, yn y gwasanaeth iechyd, yn y cyfryngau, yng nghanol dinasoedd, yng nghefn gwlad, ac yn y blaen.

### 5. Ni all dyfodol eciwmeniaeth anwybyddu'r byd digidol.

Mae'r gymuned leol yn ogystal â'r gymdeithas ehangach yn ganolog i eciwmeniaeth, ond mae cymunedau a chyfathrebu digidol hefyd yn hynod bwysig. All eglwysi ac enwadau ddim cilio i ryw geto eglwysig, ond mae angen iddynt weithio gyda'i gilydd i estyn allan i'n byd digidol.

Roeddwn yn falch iawn o gael y cyfle i sôn yn ddiweddar wrth ymddiriedolwyr yr Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon (CTBI) am gyllun 'podeglwys', menter arloesol a llwyddiannus iawn a sefydlwyd gan fy eglwys yn ystod y pandemig. Roedd pobl o bob enwad yn gwrandao ar 'Podchurch', a oedd yn cynnwys deunydd addoli'n canolbwyntio ar newid hinsawdd, cyfiawnder hiliol, anabledd, ffoaduriaid, a llawer o bynciau eraill, ac roedd yn llwyddo i ysbrydoli llawer iawn o bobl y tu hwnt i'm traddodiad i fy hun.

### 6. Rhaid i ddyfodol eciwmeniaeth fod yn agored i gyfeillgarwch rhyng-ffydd.

Mae eciwmeniaeth yn pwysleisio ein hundod yng Nghrist, ond mae hefyd yn cydnabod ein dynoliaeth gyffredin â'n brodyr a'n chwiorydd o ffydd wahanol. Mae hyn yn arwain at ddeialog ffrwythlon a gweithredu effeithiol. Ond rhaid peidio â chymysgu rhwng eciwmeniaeth a gwaith rhyng-ffydd; ar droad y mileniwm fe wnes i wrthsefyll y pwysau i wneud Canolfan Astudiaethau Eciwmeniaid Genedlaethol Cymru yn 'Ganolfan Genedlaethol Astudiaethau Rhyng-ffydd Cymru'. Dim ond wrth i eglwysi ddod at ei gilydd yn eciwmeniaid i ddathlu'r hyn sy'n debyg rhyngddynt yn ogystal â'u gwahaniaethau y gallwn gael rhywbeth unigryw ac ysbrydoledig i'w gyfrannu i ddeialog a gweithredu rhyng-ffydd.

### 7. Mae dyfodol eciwmeniaeth yn seiliedig ar obaith.

Mae cynifer o bobl Cymru wedi colli eu hymlyniad wrth grefydd gyfundrefnol. Ond does dim raid i hyn arwain at ddigalondid. Gall y rhai hynny ohonom sydd o blaid hyrwyddo eciwmeniaeth adeiladu ar ddau beth:

a) Yn ôl yr astudiaethau diweddaraf, mae ysbrydolrwydd yn dal yn bwysig ym mywydau pobl. Mae gwaith diwinyddion megis Gordon Lynch a Charles Taylor wedi dangos mai'r hyn sy'n digwydd yn syml

yw fod ysbrydolrwydd pobl yn cymryd ffurf newydd – mewn ffilm a cherddoriaeth, neu ymarfer corff ac ioga, neu mewn pêl-droed a chwaraeon eraill, neu hyd yn oed mewn cyfnod o alar cyhoeddus, fel y gwelwyd yn dilyn marwolaeth y Frenhines Elizabeth II, pan oedd pobl yn mynd i fannau addoli i weddio ac i lofnodi llyfrau cydymdeimlo. Gyda'i gilydd, gall eglwysi ystyried goblygiadau'r ysbrydolrwydd poblogaidd hwn ac yna mynd ati i weithio i ddarparu profiad o eiliadau dyrchafol a throsgynnol i gymdeithas sy'n awchu am gyswllt.

b) Yn ogystal â phresenoldeb ysbrydolrwydd cynhenid, mae'r parch tuag at waith diflino'r eglwysi dros gyfiawnder cymdeithasol hefyd yn cynyddu. Mae'r effaith y mae cynlluniau eciwmeniaid wedi'i chael yng Nghymru mewn blynyddoedd diweddar wedi dangos hyn, ar lefel leol, gyda phrosiectau eciwmeniaid sy'n trawsnewid bywydau fel gwaith Llanfair ar stad Penrhys yng Nghwm Rhondda, ac yn genedlaethol, gyda gwaith ysbrydoledig Cytûn ar bynciau pwysig fel ymgyrchu yn erbyn tlodi, croesawu ffoaduriaid, a mynd i'r afael â newid hinsawdd.

Felly, mae eciwmeniaeth wedi esblygu llawer iawn yn ystod y degawdau diwethaf hyn. Ond mae'r angen hollol hanfodol am eciwmeniaeth yn parhau. Mewn byd lle mae cynifer o raniadau bellach ym meysydd gwleidyddiaeth a hunaniaeth, fe allwn ni fel Cristnogion ffurfio undod rhyfeddol o fewn yr amrywiaeth hwnnw i ddod â gobaith i'n byd drylliedig, wrth inni siarad ar ran y rhai sydd heb lais, sefyll gyda'r rhai sydd wedi'u gwrthio i'r cyrion, a dangos i bobl Cymru fod ein ffydd yn newyddion da i bawb.

## Croesair Nadolig Cenn@d

Diolch i bawb aeth ati i roi cynnig ar y croesair Nadolig a ymddangosodd yn *Cenn@d* yn ddiweddar. Daeth nifer da o ymdrechion i law, a'r rhelyw wedi llwyddo i gael yr atebion yn hollol gywir. Yr ymadrodd i ddod o hyd iddo yn y diwedd oedd: Hosanna iddo Ef, a bu i bob ymgais ddod o hyd i hyn yn yr ymatebion a ddaeth i law.

Yr enw cyntaf allan o'r het oedd **Mrs Ceri Dart** o Fethesda yng Ngwynedd. Bydd tocyn llyfr ar y ffordd ati yn ystod y dyddiau nesaf hyn. Llongyfarchiadau i bawb fu'n cystadlu.

### ATEBION Y CROESAIR

**Ar draws** 7 Wele fe 8 drefi'r 9 a ffoi 10 Elisabeth 11 i'ch gwledd 12 Rachel 15 Jachin 17 cusanau 20 ddynol-ryw 22 Alfa 23 mieri y 24 Lystra

**I lawr** 1 Henffych 2 oedi mwy i 3 seren ef 4 Adria 5 nef a 6 Nefef 13 a Manasse 14 eu dwylo 16 Asyria 18 ar ffurf 19 arwydd 21 Omri

**Geiriau cudd:** Hosanna iddo Ef

## Cydymdeimlo

Ac yntau wedi dathlu ei ben-blwydd yn 100 oed ym mis Mawrth 2022, daeth gyrfa ddaearol y Parch. O. J. Roberts, Rhuthun (Conwy, gynt), i'w therfyn ar droad y flwyddyn newydd. Estynnwn ein cydymdeimlad i'w blant, Eleri ac Elfed. Byddwn yn cynnwys coffâd iddo mor fuan ag y medrwn.

## Cloriannu Cyfraniad y Pab Emeritws Bened XVI (1927–2022)

Cyfarfu Ail Gyngor y Fatican rhwng 1962 a 1965 o dan nawdd y Pab Ioan XXIII, gyda'r bwriad o ddiwygio a moderneiddio'r Eglwys Babyddol. Fel y gellid disgwyl, wrth geisio'r ffordd ymlaen cododd cryn densiwn rhwng yr hierarchaeth geidwadol ar y naill law, ac ar y llaw arall do newydd o ddiwinyddion disglair, blaengar. Ymysg y rheini yr oedd dau a fyddai'n gadael eu hôl yn drwm ar yr Eglwys maes o law, a hynny am resymau pur wahanol i'w gilydd, sef Hans Küng a Joseph Ratzinger. Cafodd y ddau eu penodi gan y Pab i fod yn *periti*, neu ymgynghorwyr diwinyddol, i'r Cyngor. Gyda hwy roedd diwinydd blaengar arall o'r Is-almaen, sef Edward Schillebeeckx, ynghyd â chynrychiolwyr o Dde America oedd yn prysur ennill enw iddynt eu hunain fel offeiriaid radical. Doedd dim cwestiwn lle y safai Ratzinger: roedd gyda'r radicaliaid yn brwydro yn erbyn ceidwadaeth yr hierarchaeth draddodiadol. Dair blynedd yn ddiweddarach, yn 1968, roedd yn hapus i arwyddo Datganiad Nijmegen, ac mae'r ddwy frawddeg isod yn rhoi blas inni ar drywydd y datganiad hwnnw:

Any form of inquisition, however subtle, not only harms the development of a sound theology, it also causes irreparable damage to the credibility of the church as a community in the modern world ... We would like to fulfill our duty, which is to seek the truth and speak the truth, without being hampered by administrative measures and sanctions.

Erbyn 1981 roedd Ratzinger wedi ei benodi'n bennaeth y Cynulliad dros Athrawiaeth y Ffydd, etifedd y Chwilys, ac mae'r newid yn ei safbwynt yn drawiadol. Doedd dim gwyrdd oddi wrth ddatganiadau hynafol yr eglwys i fod, ac roedd offeiriaid a diwinyddion a feiddiai gynnig dehongliadau 'cyfoes' o'r ffydd i gael eu disgyblu. Dyma'r Cynulliad a barodd i Hans Küng golli ei drwydded (y *missio canonica*) i ddysgu yn enw'r eglwys ym mhrifysgol Tübingen yn 1979. Yn 1985 gorchmynnodd Ratzinger nad oedd Leonardo Boff (un o ddiwinyddion rhyddhad amlycaf America Ladin) i gyhoeddi na datgan ei syniadau mwyach: derbyniodd Boff y ddedfryd, er yn anfoddog.

Er mwyn deall y newid llwyr hwn ym meddylfryd Ratzinger – o fod yn ddiwinydd radical i gael ei adnabod fel 'Rottweiler Duw' – mae'n rhaid deall rhai o'r dylanwadau a fu arno. Fel y gwyddom, profodd chwedegau a saithdegau'r ganrif ddiwethaf chwyldro llwyr mewn cymdeithas; bu'n gyfnod o lacio mewn moesoldeb ac o gofleidio'n agored bethau fel dulliau atal cenhedlu, ffeministaeth, agweddau mwy goleuedig tuag at rywioldeb, a phlwraliaeth grefyddol. Effeithiodd y newid gwaelodol hwn ar fywyd a meddylfryd yr holl eglwysi: bu cyfrolau Paul van Buren, er enghraifft, yn hwb i fudiad 'marwolaeth Duw', a *The Secular City* Harvey Cox yn her i rôl sefydliadol yr Eglwys o fewn cymdeithas fodern.

Roedd Ratzinger yn feddyliwr a diwinydd praff a galluog dros ben, a'i ateb yn wyneb yr heriau hyn oedd bod yn rhaid cadarnhau a chryfhau athrawiaeth a dysgeidiaeth yr Eglwys Babyddol, yn arbennig ym maes moesoldeb. Nid oedd yn barod i dderbyn unrhyw syniadaeth allai fynd yn groes i ddisgeidiaeth a thraddodiad yr Eglwys, ac roedd ei gyfarwyddiadau i leygwyr cyffredin ym meysydd rhyw, ysgariad a bywyd teuluol yn



Llun: ([https://commons.wikimedia.org/wiki/File:Benedykt\\_XVI\\_\(2010-10-17\)\\_2.jpg](https://commons.wikimedia.org/wiki/File:Benedykt_XVI_(2010-10-17)_2.jpg); Wikimedia Commons, GNU Free Documentation License)

gadarn. 'Caer yw'r eglwys, nid rhidyll!', meddai. 'Rhaid iddi fod yn glir ynghylch yr hyn y mae'n ei gredu ac yn ei ddysgu.' Y dylanwadau ymfurfiol arno bryd hynny oedd Awstin Sant ac, yn eironig, Martin Luther. Cydiodd ym mhwyslais y ddau ohonynt ar bechod dynol, gan ddod i ystyried 'y byd' mewn termau tebyg i'r hyn a geir yn Efengyl Ioan, sef amgylchedd sy'n elyniaethus i'r ffydd. Ni ellir anwybyddu chwaith ei fagwraeth yn yr Almaen dan gysgod y Natsïaid, ond mae hwnnw'n bwnc rhy gymhleth i'w drafod yma. Digon yw dweud iddo weld rhinwedd mewn awdurdod digyfaddawd, ac nid oedd arno ofn ymarfer yr awdurdod hwnnw. Credai hefyd mewn teyrngarwch llwyr i'r Eglwys, a hynny o bosibl a arweiniodd at y feirniadaeth ohono yn nes ymlaen ei fod, fel Pab, wedi cau ei lygaid i ddiffygion amlwg ymysg llu o offeiriaid ar draws Ewrop ac America pan dorrodd sgandal cam-drin plant yn rhywiol. Yr ofn oedd ei fod wedi gosod teyrngarwch i'r Eglwys, a diogelu ei henw da, o flaen popeth arall.

Cafodd Ratzinger ei benodi'n Bab yn 2005, a chymerodd yr enw Bened XVI. Yn ôl ei dystiolaeth ei hun roedd dau ffigur mawr o'r gorffennol yn ei feddwl wrth wneud hynny. Y naill oedd Bened XV, a fu'n Bab adeg y Rhyfel Byd Cyntaf, ac yn 'apostol heddwch' a chymod yn enw'r eglwys. Y llall oedd Bened o Norsia (neu Nursia) o'r bumed a'r chweched ganrif, sylfaenydd urdd fynachaidd y Benedictiaid, ac un a roes ei fryd ar amddiffyn gwreiddiau Cristnogol y diwylliant Ewropeaidd yn yr oes honno. Gwelai Bened XVI ei hun mewn ffordd debyg, yn amddiffyn y ffydd yn wyneb llanw seciwlariaeth yr ugeinfed ganrif a'r unfed ganrif ar hugain. Yng ngolwg ei feirniad, golygai hynny ei fod am lusgo'r eglwys yn ôl i'r cyfnod cyn Fatican II: roedd yn geidwadol ei syniadau am y liturgi, fe garai weld adfer yr Offeren Ladin, ac nid oedd ganddo weledigaeth eciwmenaidd. Academydd

## Cloriannu Cyfraniad y Pab Emeritws Bened XVI (1927–2022)

(parhad o dudalen 3)

ydoedd, arweinydd adweithiol â phersonoliaeth ddigymrodedd.

Ond byddai hynny'n ddyfarniad annheg. O flaen popeth arall, gwelai Bened Gristnogaeth yn colli ei gafael ar fywyd teuluol a chymdeithasol, a'i ateb oedd mynd yn ôl at y sylfeini. Yn ddi-os, roedd yn un o feddylwyr mwyaf athrylithgar yr


Eglwys Babyddol yn y cyfnod presennol, ond roedd hefyd yn wŷr o ffydd gadarn, o integriti llwyr, ac yn bennaf oll o ddefosiwn dwys. Bu ei lyfrau defosiynol, megis *Jesus of Nazareth* a *Deus caritas est*, yn gymorth ac yn fendith i lu o'r ffyddloniaid oddi mewn ac oddi allan i'r Eglwys Babyddol. Person swil, diymhongar ydoedd, ac mae pob un a gyfarfu ag ef yn tystio i'w dynerwch a'i hiwmor direidus.

Bydd Bened XVI yn cael ei gofio fel eryr yn gwarchod dros uniongredd yr Eglwys ac unplygrwydd 'y ffydd a draddodwyd un waith am byth i'r saint', a honno, iddo ef, yn ffydd bersonol gadarn yn yr Arglwydd, yr un (meddir) y cyfarchodd yn dawel â'i eiriau olaf ym mynachlog Mater Ecclesiae yn y Fatican: 'Arglwydd Iesu, rwy'n dy garu.'

Glyn Tudwal Jones  
Caerdydd

## O'r byd a'r betws Gwneud daioni ac arfer trugaredd

**'Dangosodd efe i ti, ddyn, beth sydd dda: a pha beth a gais yr Arglwydd gennyt, ond gwneuthur barn, a hoffi trugaredd, ac ymostwng i rodio gyda'th Dduw?'**



Llun gan Mathias Reding ar Unsplash  
<https://unsplash.com/photos/tQuamRCuIME>

Bu'n arfer gan deulu'r ffydd ledled y byd o dan nawdd Cyngor Eglwys i'r Byd i neilltuo 18–25 Ionawr i gynnal Wythnos Weddi er hybu Undeb Cristnogol. Os digwydd bod darllenwyr y golofn hon heb archebu'r deunyddiau yn Gymraeg oddi ar y we, gellir eu gweld ar wefan yr Eglwys Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon – y [CTBI](#). Ymddiriedwyd y dasg o greu'r deunyddiau i griw o bobl sy'n byw yn Minnesota, yn yr Unol Daleithiau. Eu prif darlenniad Beiblaidd yw'r geiriau cyfarwydd yn Eseia 1:17 ac yn Micha 6:8: 'Ceisiwch farn, achubwch gam y gorthrymedig, gofawch dros yr amddifad a chymerwch blaid y weddw'.

Bydd amryw ohonom wedi troi at yr adrannau hyn wrth drafod diwinyddiaeth heddwch a chyfiawnder Cristnogol, a gweld Càn Mair a'r Gwynfydau fel enghreifftiau o'r datganiadau hynny yn y Testament Newydd. Bydd y sawl a ddarllenodd unrhyw beth am foeseig Gristnogol, o unrhyw draddodiad enwadol, yn siŵr o fod wedi cwmpasu'r un datganiadau Beiblaidd, gan dderbyn fod ffydd ac addoliad yn gorfod gweithredu'r ffydd sydd ym mherson Iesu.

Tybir y bydd pob economi'n gwegian dros y deunaw mis nesaf, a hynny ym mhob gwlad. Y tlotaf a'r mwyaf diymadferth fydd yn teimlo'r cyni fwyaf, a hynny o fewn pob gwlad. Yn amlwg bydd y gwledydd tlotaf yn profi'r brathu caletaf, a'r gwledydd lle mae rhyfel cartref yn waeth na'r lleill. Bu'r undebau llafur a fu ar streic yng ngwledydd Prydain yn lleisiau i'w haelodau eu hunain, ond pwy fydd y llais dros y di-lais yn ein byd?

Bydd y sawl a wylodd anerchiad dydd Nadolig cyntaf Siarl III wedi ei glywed yn cyfeirio at brofiad eneiniedig a gafodd yn gweld y man y dywedir i Iesu gael ei eni ym Methlehem. Diolchodd i'r eglwys am eu gwaith clodwiw i'w cymunedau ac yna dangosodd barch at grefyddau eraill yn y byd, a'u cyfraniad hwythau yn enw trugaredd a chyfiawnder.

Roedd llais Eseia yn yr wythfed ganrif cyn Crist yn herio crefyddolder ei ddydd. Gwelodd fod yr addoliad nad oedd yn byw yn gyfiawn yn amharachu Duw, nid ei barchu, a bod mynegi mawl ond gwrthod gweithredu trugaredd yn rhagrithiol. Mae beirniadaeth Eseia yn berthnasol er iddo lefaru 30 canrif yn ôl.

Yn neunydd yr Wythnos Weddi eleni, byddwn yn myfyrio ar sut mae goresgyn anghyfiawnderau byd. Bydd hiliaeth, tlodi, digartrefedd, diweithdra a llu o feysydd eraill yn mynnu lle yn y trafod hwnnw. Bydd cerdded yn wylaidd gyda Duw, yn gofyn parch at bob person, beth bynnag eu rhywedd, eu crefydd neu statws economaidd a chymdeithasol.

Ni fydd amheuaeth beth yw cyfrifoldeb pobl Crist tuag at y gorthrymedig a'r ffoaduriaid a bod yn rhaid amddiffyn hawliau plant a gwragedd gweddw. Nid cyfrifoldeb i eraill yw gwneud daioni a cheisio trugaredd, ond cyfrifoldeb 'i ni'. Rhaid i'r eglwys arfer 'y byw ynghyd', nid yn unig fel cynulleidfa, ond fel cyrff enwadol, cenedlaethol a rhyngwladol. Mae'r sawl a dderbyniodd ras Iesu i fod yn raslon, a'r sawl a gyfiawnheir gan Iesu i weithredu cyfiawnder. Diolch am bob arwydd o drugaredd a ddangoswyd gennych yn ystod 2022. Faint mwy allwn ni ei wneud yn ystod y flwyddyn newydd hon yn enw Iesu?

Denzil John

## Cofio'r Parchedig Rhys ab Ogwen Jones

Un tawel llawn arddeliad, a'i allu  
yn bwyllog ymroddiad  
a roes heddw yn wledd i'w wlad  
â heriol rym y cariad.

Cafodd ei eni yn Llanarmon Dyffryn Ceiriog, lle roedd ei dad yn brifathro. Ond cafodd ei fagu ym Mhentre Broughton, gan fod ei dad yn fuan wedyn wedi cael ei benodi'n brifathro Ysgol Gynradd y Bechgyn yno. Pentref Seisnig a glofaol oedd Pentre Broughton ond ymaelododd y teulu yng nghapel Cerni, capel Cymraeg yr Hen Gorff.

Rhwng yr aelwyd a'r capel fe ddiogelwyd yr iaith ar wefusau Rhys, Alun ac Elen. Roedd ymweliadau a chysylltiadau teuluol yn Nyffryn Clwyd, ac yn Nyffryn Conwy, yn gymorth hefyd. Mae'n debyg fod Rhys yn ei ddyddiau cynnar yn chwarae 'cnebrwng' ac yn dysgu adnodau di-ri ar ei gof. Ymddengys fod hynny'n argoel o'r hyn oedd i ddod. Ond mi fydda'n pêl-droedio a chwarae criced hefyd yn y cyfnod cynnar cyn troi at golff mewn dyddiau aeddfetach.

Cafodd ei addysg yn Ysgol Pentre Broughton, Ysgol Grove Park, Wrecsam, a Choleg y Brifysgol ym Mangor. Ac yn y fan honno y daethon ni yn ffrindiau oes gan ein bod ni ein dau â'n hwynebau ar y weinidogaeth. Wedi graddio mewn Cymraeg a Hanes y penderfynodd fynd i'r weinidogaeth ac ymgymryd â chwrw mewn Diwinyddiaeth.

Wedi cwblhau ei gwrs, fe fu Rhys yn was da i bedair gofalaeth: Eglwys-bach, Llansannan, Caer, a Chapel Mawr y Rhos, gan ymgartrefu yn Tregeiriog, yr Hafan, y Ponciau. Ac ar ôl ymddeol fe fu'n gofalu am St John St, Caer, am yr ail waith. Y bwriad gwreiddiol oedd bod yno am ryw ddwy flynedd ond fe fu yno am ddeg!

Mi fu'n fugail gofalus ac yn bregethwr meddylgar ar hyd ei yrfa.


Rwy'n dweud 'bugail gofalus' oherwydd, yn ei gyfarfod gollwng yn y Capel Mawr, cyfeiriodd y diweddar J. R. Thomas at ei ddawn arbennig fel bugail yn ymweld â chartrefi lle roedd galar a gwaeledd ac ysbytai yn ddi-feth, a bod llawer aelod o'i braidd yn cofio'i ymweliadau a'i eiriau caredig.

Rwy'n dweud 'pregethwr meddylgar' oherwydd, beth amser yn ôl, fe gefais ddyddiadur y diweddar Barchedig W. J. Thomas, y Felinheli. Yn hwnnw mae'n tystio iddo wrando ar y Rhys ifanc yn pregethu, a'i ddisgrifiad o'r pregethwr oedd 'Pregethwr meddylgar'. A dyna dystiolaeth J. R. Thomas yntau: ei fod yn bregethwr coeth, meddylgar a chyfoes, oedd yn dangos ei wybodaeth o'r ddiwinyddiaeth ddiweddaraf yn ogystal ag adnabyddiaeth o'r byd cyfoes.

Yn unol â'i feddylfryd, ymgymrodd ag ysgrifenyddiaeth Undeb Athrofa'r Bala, neu'r Fforwm Ffydd bellach. Bu'n ysgrifennydd am dros ddegawd. Ac fe gefais i'r fraint o fod yn llywydd iddo – ac roedd yn gyfnod o gydweithio hapus dros ben.

Fel y dywed y Sais, 'Still waters run deep.' Oedd, roedd 'na ddyfnder i feddyliau gofalus Rhys, nid yn unig yn ei bregethau ond wedi iddo ymddeol pan aeth ati i wneud ymchwil gofalus a graenus i hanes radicaliaeth yr Hen Gorff a enillodd iddo radd MTh Prifysgol Bangor. Roedd yr ymchwil hwn hefyd yn bwnc ei Ddarlith Davies yn y Gymanfa Gyffredinol, darlith sydd â chryn anrhydedd yn eiddo iddi.

Nid diwinyddiaeth yn unig oedd ei gonsyrn ond problemau cymdeithas. Does ryfedd iddo fod yn Ysgrifennydd y Pwyllgor Eglwys a Chymdeithas yng Nghymdeithasfa'r Gogledd am



rai blynyddoedd, heb sôn am ei waith ym mha Henaduriaeth bynnag oedd o ynddi ar y pryd. Ac fe gefais i'r fraint o fod yn gwmni iddo ar y pwyllgor hwnnw a'r fraint bellach o fod yn olynnydd iddo fel ysgrifennydd.

Roedd Rhys yn gyfuniad o grwydryn a phererin. Yn y dyddiau cynnar bu'r ddau ohonom yn crwydro cyfandir Ewrop – oedd hefyd yn bererindod. Ond erbyn y saithdegau a'r wythdegau roedd Rhys yn bererin rheolaidd, yn wir yn arweinydd pererindodau i Israel, ac i'r saith eglwys yn Asia, a bu'n dilyn ôl troed Paul yng ngwlad Groeg. Yn ddiweddarach, roedd o a Gwenfron yn hapus gyda'r garafán sefydlog yn Nyffryn Conwy i fwynhau hoe a phrydferthwch y dyffryn.

Ond mi fu'r blynyddoedd olaf yn anodd i Gwenfron, i'w deulu ac i'w ffrindiau, gyda chyflwr ei iechyd yn mynd yn fwy bregus. Gwnaeth cyfnod y Covid bethau'n fwy anodd fyth, gan fod Rhys yn treulio cyfnodau hir mewn ysbyty. Er y gofal mewn ysbyty a chartref, cafodd nyrs ardderchog yn ei briod, Gwenfron. Mae ein diolch iddi am ei gofal eithriadol ohono gyda chefnogaeth teulu a ffrindiau.

Mi fu'r bartneriaeth rhwng Gwenfron a Rhys yn bartneriaeth arbennig ar eu haelwyd ac yn eu gofalaethau, partneriaeth a barhaodd am 55 mlynedd. Mae geiriau'r diweddar Barchedig Dafydd Hughes Jones i'r ddau yn y cyfarfod gollwng yn y Capel Mawr yn addas:

Am hynny fe wêl pobl y Rhos  
Mai aros wna'u cyfraniad.

Ond mae cyfraniad Rhys a Gwenfron yn llawer lletach na hynny. Ac am hynny yr ydym yn wirioneddol ddiolchgar.

John Owen  
Rhuthun

## ADNABOD

## Cymeriadau'r Hen Destament

## ABRAHAM

Cyfes o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

### 13 Cadarnhau addewid

(Gweler hefyd *Dehongli Bywyd Abraham*, gan Gareth Lloyd Jones, Pennod 7, t. 56 ymlaen)

#### Darllen: Genesis 13:14–18

Cyn troi o bennod 13, rwyf am gyfeirio at un peth trawiadol sydd yng nghanol y bennod. Wedi i Abraham ganiatáu i Lot i ddewis ble roedd am fyw er mwyn osgoi unrhyw gynnen rhyngddynt, cawn fod Duw yn dewis yr amser yma i addo bendith i Abraham unwaith eto; sylwch yn arbennig ar adnodau 14–17. Yn naturiol, yr hyn ddaeth i'm meddwl yn gyntaf wrth ailddarllen yr adnodau oedd y gwirionedd a geir yn Hebraeid 11:10: 'Oherwydd yr oedd ef yn disgwyl am ddinas ac iddi sylfeini, a Duw yn bensaer ac yn adeiladydd iddi' ac yna, Hebraeid 11:13–16, a'r cymal ar ddechrau adn. 16: 'Ond y gwir yw eu bod yn dyheu am wlad well, sef gwlad nefol.' Ac yn olaf, yn y bennod yma o'r Hebraeid, ceir geiriau'r awdur am Moses (adn. 24–6), lle y darlunnir penderfyniad Moses i wrthod cael ei alw'n fab i ferch Pharo a dioddef adfyd gyda phobl Dduw, oherwydd bod ei olwg ar y dydd y byddai Duw yn rhoi'r wobr.

Wedi nodi hyn, mae arwyddocâd arbennig i glywed yr addewid yn awr i Abraham, a'r addewid hwnnw wedi ei helaethu. Nid yn unig y mae Duw am roi gwlad a chenedl i Abraham (gweler Genesis 12:2 a 7), ond bellach bydd ei had fel llwch y ddaear, a does dim tir Lot fel y cyfryw, gan fod yr Arglwydd yn caniatáu i Abraham rodio ar hyd a lled y wlad, 'oherwydd i ti yr wyf yn ei rhoi' (17). Gwyddom mai am amser byr iawn y cafodd Lot 'fwynhau' ei ddewis ef, ond, i Abraham, mae'r addewid iddo a'i ddisgynyddion 'am byth' (15). Yn wir, os oedd Abraham yn edrych i lawr at dir ffrwythlon dyffryn yr Iorddonen o fynydd-dir moel a llychlyd, mae hyd yn oed y llwch hwnnw'n cael ei ddefnyddio fel darlun o'r fendith oedd yn aros iddo. Pwy a wŷr nad oedd Sarah, ei fugeiliaid ac unrhyw un arall gafodd ei effeithio gan ei ddewis yn troi arno am wneud y dewis hwn. Ac yn wir,

yn y tymor byr mae'n amlwg fod Lot wedi cael y budd gorau, gyda hwnnw'n medru cyfnewid ei babell am gartref cysurus yn ninas Sodom. Rydym ninnau'n ymwybodol iawn fod yna benderfyniadau, fod yna fentro ar Dduw sy'n ymddangos yn golled i eraill ar y cychwyn, ac efallai hyd yn oed i ninnau.

Yn ei lythyr at Gristnogion oedd yn gorfod wynebu anawsterau a threialon oherwydd eu penderfyniad i ddewis Iesu, mae Pedr am ddweud wrthynt:

Bendigedig fyddo Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist! O'i fawr drugaredd, fe barodd ef ein geni ni o'r newydd i obaith bywiol trwy atgyfodiad Iesu Grist oddi wrth y meirw, i etifeddiaeth na ellir na'i difrodi, na'i difwyno, na'i difa. Saif hon ynghadw yn y nefoedd i chwi, chwi sydd trwy ffydd dan warchod gallu Duw hyd nes y daw iachawdwriaeth, yr iachawdwriaeth sydd yn barod i'w datguddio yn yr amser diwethaf. Yn wyneb hyn yr ydych yn gorfoleddu, er eich bod, fe ddichon, yn awr yn profi blinder dros dro dan amrywiol brofedigaethau. (1 Pedr 1:3–6)

Yn adnod 10 mae Lot yn codi ei olwg ac yn gweld y wlad oedd o'i flaen, ac yn adnod 14 mae Duw yn gorchymyn i Abraham godi ei olwg; cawn fod ynaill yn olwgy'n ôl ycnawd, a'r llall yn olwg trwy lygaid ffydd. Tra mae Lot wedi cael ei ddewis ef yn awr, rhywbeth fyddai'n cael ei roi yn y dyfodol fyddai rhan Abraham. Ond o'i roi, yr oedd yn rhoi am byth. Yn hynny, mae'r Cristion bob amser yn barod i ymddiried yn y llais yma sy'n ei alw ac yn rhoi addewid. Ei ddymuniad yw cael ei blannu yn y tir hwnnw lle mae'n anfodlon 'dilyn cyngor y drygionus nac ... ymdroi hyd ffordd pechaduriaid nac ... eistedd ar sedd gwatwarwyr' ond, yn hytrach, 'sy'n cael ei hyfrydwch yng nghyfraith yr ARGLWYDD ac yn myfyrio yn ei gyfraith ef ddydd a nos. Y mae fel pren wedi ei blannu wrth ffrydiau dŵr ac yn rhoi ffrwyth yn ei dymor, a'i ddeilen heb fod yn gwywo. Beth bynnag a wna, fe lwydda' (Salm 1:1–3). Tebyg fod

agwedd Abraham yn y bennod hon yn gysgod o'r bobl hynny a ddisgrifir gan Iesu: 'Gwyn eu byd y rhai addfwyn, oherwydd cânt hwy etifeddu'r ddaear' (Mathew 5:5) a'r agwedd a gymeradwyir gan Iesu: 'Ond ceisiwch yn gyntaf deyrnas Dduw a'i gyfiawnder ef, a rhoir y pethau hyn i gyd yn ychwaneg i chwi' (Mathew 6:33).

A dychwelyd at amseriad rhagluniaethol ailadrodd yr addewid hwn, mae'n sicr yn ein hatgoffa fod Duw yn adnabod ein defnydd, yn gwybod am ein dyddiau, fel ein munudau, ac yn gwybod yn dda beth yw'r moddion gorau i'n cynorthwyo i wynebu pob amgylchiad yn ei dro. I Abraham, dyma'r amser i'w gadarnhau, i'w gysuro, i'w annog o ran ei ffydd. Os yw amynedd yn un o ffrwythau'r Ysbryd (Galatiaid 5:22), ac os yw'r Ysgrythur yn ein hannog yn gyson i '[dd]isgwyl yn dawel am yr ARGLWYDD, aros yn amyneddgar amdano' (Salm 37:7), gwyddom hefyd fod Iesu, ein harchoffeiriad mawr, yn abl i gyd-ddioddef â'n gwendidau, a rhoi gras yn gymorth yn ei bryd (Hebraeid 4:14–16). Yn sicr, mae'r gras hwn yn gwneud ei waith ym mywyd Abraham yr adeg yma, oherwydd fe gawn ei fod yn adnod 18 yn dewis lle priodol i gysgodi ac yn codi allor i addoli'r Arglwydd. Fel Eiseia, mae wedi darganfod fod y 'rhaisyn' yn disgwyl wrth yr ARGLWYDD yn adennill eu nerth; y maent yn magu adenydd fel eryr, yn rhedeg heb flino, ac yn rhodio heb ddiffygio' (Eiseia 40:31).

1. Oes yna gyfnodau lle y byddwch wedi cwestiynu doethineb ymddiried yn Nuw, neu gwestiynu doethineb rhywun o'ch cydnabod a wnaeth hynny?
2. 'Dayw'r ARGLWYDD i'r rhaisyn gobeithio ynddo, i'r rhaisyn ei geisio. Y mae'n dda disgwyl yn dawel am iachawdwriaeth yr ARGLWYDD' (Galarnad 3:25–6). Beth fydd yn eich cynorthwyo chi i ailgylwed addewidion Duw ac i annog amynedd?
3. Nodwch enghreifftiau o adnabod 'gras yn gymorth yn ei bryd'.

## S4C

**Dechrau Canu, Dechrau Canmol**  
Sul, 15 Ionawr, am 7.30yh

Lisa fydd yn crwydro Ynys Môn yn dysgu am rai o'r emynwyr mawr sydd wedi dod â chrefydd yn fyw i genedlaethau o Gymry ers dwy ganrif a mwy



**Caniadaeth y Cysegr**

Sul, 15 Ionawr, am 7:30yb a 4:30yp

R. Alun Evans fydd yn cyflwyno'r bedwaredd raglen mewn cyfes sy'n trafod gwahanol themâu. Heddiw, y synhwyrau sydd dan sylw

**Sul, 15 Ionawr, am 12:00yp**

Oedfa dan arweiniad Melda Grantham, Llandysul

## 'Oes yna'r fath beth â cherdd grefyddol heddiw?'

Darllenwch farn y Cyn-archesgob Rowan Williams yn y rhifyn diweddaraf o'r *Traethodydd*

Prif erthygl y rhifyn diweddaraf o'r *Traethodydd* yw'r ddarlith a draddododd y Cyn-archesgob Rowan Williams ar faes Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion, Tregaron, ar y testun 'Cerdd a Chredo: ydi cerdd grefyddol yn bosibl heddiw?' Bydd y sawl a oedd yn gwrandao arno'n cofio mai ymdriniaeth dreiddgar ac ystyriol a gafwyd, gan ddweud, yn y diwedd, 'Ydi', ond nid cyn codi enghreifftiau gan rai o'n beirdd cyfoes, Ceri Wyn Jones a Menna Elfyn ond yn fwyaf arbennig Aled Jones Williams sydd, fel y gŵyr llawer o'n darllenwyr, yn llais hynod, onid unigryw, yn y byd llengar Gymraeg. Ofer yw ceisio crynhoi'r ddarlith mewn llinell neu ddwy fel hyn; rheitiach fyddai i chi ddarllen yr ysgrif yn bwylllog drosoch eich hunain a phrofi o'i chyfoeth. Chewch chi mo'ch siomi.

Yn ogystal â'r ysgrif uchod ceir yn y rhifyn ail ran ymdriniaeth Pryderi Llwyd Jones â gwaith Thomas Traherne, y bardd Saesneg o'r gororau. Yn dilyn hynny, mae astudiaeth hynod ddiddorol Llion Wigley ar hanes gardd-bentref Rhiwbeina, Caerdydd, yn nauddgau'r ganrif ddiwethaf, a'r ymgais iwtopaidd ei naws i greu cymuned arbrol a ddenodd


rai o flaenwyr y dosbarth canol Cymraeg – Kate Roberts, Iorwerth Peate, R. T. Jenkins yn eu plith – i fyw yno. Yna, ceir ysgrif sobreiddiol gan D. Ben Rees ar erchyllterau'r Holocost, a'r angen i ni beidio byth â'i anghofio.

Ymhlith ein hadolygwyr y mae Huw Pryce, sy'n ymdrin â chyfrol yr archeolegydd David Austin ar Ystrad-fflur (eto'n gysylltiedig ag Eisteddfod Genedlaethol Tregaron) a cheir gwerthfawrogiad gan Dafydd Ifans o olygiad Gruffydd Aled Williams o ysgrifau'r ddiweddar Ddr Enid Pierce Roberts, gynt o'r Adran Gymraeg ym Mangor. Rhidian Griffiths sy'n cloriannu cyfrol Rhiannon Ifans, *Stars and Ribbons: winter wassailing in Wales* – bydd rhai'n cofio'r gyfrol *Sêrs a Rybana*, a gyhoeddwyd gan yr awdur mor bell yn ôl ag 1983, ond nid cyfieithiad moel mo hwn ond ffrwyth aeddfed ymchwilio a myfyrio pellach ar y maes. Ac Arfon Jones, yntau'n arbenigwyr ar hanes ein hesboniadaeth feiblaidd, sy'n trafod astudiaeth ddisglair Gareth Evans-Jones, *'Mae'r Beibl o'n tu': Ymatebion crefyddol y Cymry yn America i gaethwasiaeth (1838–1868)*.

Anogwn bawb sy'n ymddiddori ym mhethau gorau'r diwylliant cenedlaethol

Ionawr 2023

## Y Traethodydd



Cerdd a Chredo: Rowan Williams ar ganu crefyddol heddiw

nid yn unig i ddarllen y rhifyn hwn o'r *Traethodydd*, ond i'w brynu a'i archebu. Gellir gwneud hynny drwy gyfrwng y wefan: [www.ytraethodydd.cymru](http://www.ytraethodydd.cymru). Dilynwch ni hefyd ar Drydar ac ar Facebook. Y golygydd yw'r Dr D. Densil Morgan ([d.d.morgan@pcdds.ac.uk](mailto:d.d.morgan@pcdds.ac.uk)), Y Gilfach, Ffordd y Gogledd, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7AJ. Am fanylion ynghylch ei archebu, cysylltwch â Joanna Thomas-Wright ([joanna.thomas-wright@ebcpcw.cymru](mailto:joanna.thomas-wright@ebcpcw.cymru)), Swyddfa Eglwys Bresbyteriaidd Cymru, 81 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 1DD.

## Ysgol Sul Noddfa, Llanbedr Pont Steffan

Bu'n amhosib trefnu ysgol Sul yn ystod y misoedd diwethaf ar noson sy'n gyfleus i bawb, gan fod y plant ynghlwm â nifer o weithgareddau amrywiol. Ond, trwy ryfedd wyrth, llwyddwyd yn wyneb sawl anhawster i gynnal oedfa Nadolig wedi ei llunio yn ôl yr arfer gan Janet. Trwy gyfrwng darlenniadau o'r Beibl, gweddïau, adroddiadau, anawdau a grwpiau canu bu'r plant, y bobl ifanc a'r rhieni yn ein tywys tua Bethlehem gan gyflawni eu gwaith yn raenus iawn.

Roedd deialog hyfryd rhwng mam a'i phlentyn ar noswyl y Nadolig yn ddolen gyswllt effeithiol iawn drwy'r oedfa wrth i ni ymlwybro tua'r preseb ac yn cynnwys ychydig o awgrymiadau



oedd yn codi gwên! Pleser oedd gweld y plant lleiaf yn serennu unwaith eto wrth ganu a llefaru mewn ffordd mor naturiol a chartrefol.

Diolchodd ein Gweinidog, y Parchedig Densil Morgan, i bawb oedd wedi cymryd rhan am gyfoethogi ein bywydau ac i Janet am ei pharatoadau.

Ar ran yr ysgol Sul, cyflwynwyd anrhegion i Janet gan Cai, Ifan a Hari fel gwerthfawrogiad o'i gwasanaeth ar hyd y flwyddyn. Ymatebodd hithau trwy dalu teyrnged i'r plant, y bobl ifanc a'r rhieni am eu cyfraniadau gwerthfawr oedd wedi sicrhau oedfa fendithiol. Datganodd ei gwerthfawrogiad hefyd i'r rhieni am bob cefnogaeth.

Ar y diwedd talwyd ymweliad gan Siôn Corn (diolch i Alun) a bu'n hael iawn eleni eto tuag at y plant a'r bobl ifanc oedd wedi bod yn rhan o'r oedfa. Yna, mwynhawyd te parti ardderchog yn y festri wedi ei drefnu gan Llinos a'r rhieni i gloi ychydig oriau pleserus dros ben.

# Dyma gyfarfod hyfryd iawn lesu, rwyf ti'n ddigon

Emyn 75 'I'r Arglwydd cenwch lafar glod'

Darlleniad Salm 40:1-11

Gweddi

Arglwydd, Emaniwel, wedi oesoedd o ddisgwyl amdanat fe ddaethost i'n byd yn dy Fab Iesu Grist. Daethost yn Oen Duw i ddwyn ymaith bechodau'r byd. Diolch dy fod yn parhau i'n codi o'r pwll lleidiog, ein harwain yn ddiogel a rhoi cân o fawl yn ein calonnau gobeithiol. Arglwydd, cyfaddefwn a chyhoeddwn gerbron y byd nad oes neb tebyg i ti. Ein dyhead parhaus yw medru cyhoeddi dy fawl yn y 'gynulleidfa fawr' fel y bydd y byd yn grwn yn clywed am dy weithredoedd, yn ymostwng i ti, ac yn ymddiried ynot. Ymwél â ni drachefn drwy dy Ysbryd Glân a rho yn ein calonnau gân newydd. Amen.

Emyn 604 'Mae eglwys Dduw fel dinas wych'

Darlleniad 1 Corinthiaid 1:1-9

Trysor cudd

Ry'n ni i gyd wedi eu gweld: y bobl sy'n ysgubo wyneb traethau a chaeau â'u hoffer wrth iddynt chwilio am drysor cuddiedig yn y tir. Byddant yn oedi ambell waith ac yn sefyll yn stond wrth i'r signal awgrymu bod rhywbeth metel, gwerthfawr o bosib, yn cuddio o dan wyneb y pridd.

Ambell waith adroddir ar y cyfryngau fod rhywun wedi darganfod trysor mewn man annisgwyl. A'r gobaith hwnnw y cânt hwythau hefyd o bosib ddarganfod trysor amhrisiadwy sy'n eu sbarduno i ddyfalbarhau.

Y trysor a guddiwyd

Rhywbeth tebyg yw profiad sawl un ohonom a gawsom ein cyfareddu gan ogoniant Iesu Grist. Er inni ganu am ei ogoniant, aethom i amau bod gogoniant Iesu a harddwch ei eglwys ynghudd o dan haenau o 'farnish' tywyll arferion enwadol a 'thraddodiad' ein capeli'n lleol.

O ddarllen ein hadnodau'n ofalus, canfyddwn y nodweddion rhyfeddol hynny sy'n perthyn i eglwys Iesu Grist, gogoniant a guddiwyd gan staen ein harferion.

Gogoniant nefol ar lawr gwlad

Y mae pob eglwys o osodiad Iesu Grist wedi ei daearu mewn rhyw 'Gorinth' lleol (adn. 1) Yno, trwy bregethiad y 'dystiolaeth' am

Iesu, sefydlwyd trefedigaeth nefol o bobl sy'n 'galw' ar yr Arglwydd Iesu Grist.

Gwrthdaro?

Yng Nghorinth gynt, roedd argyhoeddiadau, ffydd a gwerthoedd Cristnogol yn gwbl ddieithr i'r rhelyw. Mae'n gynyddol wir yma yng Nghymru (yn ôl ystadegau'r Cyfrifiad) fod yr hyn a gredwn am Iesu a'r hyn a gyflawnodd drosom yn gwbl ddieithr i'n cyfoedion. Mae bron yn anorfod felly y bydd rhagdybiaethau Cristnogol yn gynyddol mewn gwrthdrawiad â chredoau paganaidd, ofergoel a gwerthoedd diwylliannol ein hoes.

Tystion lleol

Bydd gan bob eglwys leol ei 'Paul' a'i 'Sosthenes', y bobl hynny a ddygodd y newyddion da am Iesu Grist i'w bro.

Ar lefel fwy personol fyth, bydd gan bob Cristion rywun, neu rywrai, a fu'n bwysig iddynt ar eu taith ysbrydol. Gall mai rhyw weinidog, neu gyfaill, neu flaenor, neu athro ysgol Sul a'n galluogodd i adnabod Iesu Grist am y tro cyntaf.

Beth am oedi am foment i ddwyn i gof y bobl hynny a chwaraeodd ran mor bwysig yn ein twf ysbrydol a rhoi diolch i Dduw amdanant?

Adnabod eglwys

Gallwn adnabod nodweddion eglwys Iesu Grist ar unwaith. Dyma nodweddion sy'n perthyn i bob cynulleidfa Gristnogol, i 'bawb ym mhob man sydd yn galw ar enw ein Harglwydd Iesu Grist' (adn. 2). Dyma yw'r Eglwys: pobl ffaledig mewn perthynas â Duw mawr. Pechaduriaid ydym a gymodwyd â Duw; troseddwyd ydym a brofodd faddeuant; pobl ydym a faglodd ac a lithrodd ar ein taith ac a gawsom ein galw yn ôl i lwybrau bywyd gan y Tad, drwy Iesu Grist.

Rhyfeddod ffydd

Pobl oeddem gynt oedd heb Grist, ond bellach daethom i greu'r 'dystiolaeth am Grist' (adn. 6). Cawsom ein galw heb na hawl na haeddiant i fod mewn perthynas â Duw drwy Iesu Grist. Gras anhaeddiannol yw sail y berthynas, yr adnabyddiaeth, a'r parhad yn y bywyd newydd hwn.

Pobl ydym a neilltuwyd gan y Tad ac 'a sancteiddiwyd yng Nghrist' (adn. 2). Rydym yn byw 'yng Nghrist' (adn. 4). Rydym yn

'saint' wedi ein neilltuo i Grist gan ras Duw. Nid disgrifiol cyrhaeddiad ysbrydol, neu dduwioldeb neu ddaioni neilltuol y mae'r gair 'sant'. Disgrifiad ydyw o bobl gyffredin o anghyffredin. Rydym yn *gyffredin* am ein bod yn parhau i fod yn ffaledig a meidrol. Ond yr ydym hefyd yn *anghyffredin* am y cawsom ein 'sancteiddio', ein neilltuo i Iesu Grist drwy 'alwad Duw', drwy'r Ysbryd Glân (adn. 2).

Mae cynulliad o'r fath yn achosi diolch i Dduw. Dim ond ef allai greu'r fath gorff. Yr Arglwydd ei hun ddangosodd 'ras dwyfol ... yng Nghrist Iesu' (adn. 4). Gwaith gras yng Nghrist yw sail y cyfan oll i gyd a brofasom. Ef sy'n ein cyfoethogi a'n cadarnhau drwy 'ymadrodd' a thystiolaeth am Grist (adn. 6).

Fe ŵyr yr Eglwys fawr yn y nef ac ar y llawr mai rhannol, yn wir, yw ein hadnabyddiaeth o'r Arglwydd. Ond am ei fod ef yn 'ffyddlon', llwyr gredwn y bydd yr hwn a'n galwodd i gymdeithas ei Fab ac i gymdeithas ei Eglwys hefyd yn ein cadarnhau pan fôm yn ddiffygiol, a'n llenwi â hyder. Edrychwn ymlaen gyda gobaith y bydd cyflawniad ei waith ynom yn tynnu ymaith bob 'cyhuddiad' sydd yn ein herbyn. Bydd ef yn ein cadarnhau hyd nes y cyflawnir y cwbl ar ddyfodiad cyflawn yr Arglwydd ei hun.

'Iesu, rwyf ti'n ddigon'

Pan ailddarllenwn eiriau'r Apostol, gwelwn fod Iesu Grist yn llenwi popeth y mae am ei ddweud wrth y gynulleidfa yng Nghorinth. Yn ganolog i'r cyfan oll a gredwn am ddaioni Duw yn y byd ac am ein perthynas ag ef, saif gogoniant yr Arglwydd Iesu Grist yn ganolbwynt rhyfeddod, addoliad a gobaith yr Eglwys ym mhob cynulleidfa, ym mhob cwr o'r byd. Ac Iesu yw prif destun ffocws a mawl y nef!

Un o nodweddion cynulleidfa oedd sy'n dirywio, neu enwadau sy'n ymbellhau oddi wrth Dduw, yw'r tueddiad, ac yna'r arferiad, o lenwi eu gweithgarwch â phethau eraill heblaw am yr Arglwydd Iesu Grist. Nodweddir eglwys fyw, ar y llaw arall, gan ei chariad at yr Arglwydd Iesu Grist.

Tybed beth sy'n llenwi ein bryd – yn personol, fel cynulleidfa, fel enwadau?

Gweddi

Arglwydd, dysg ni heddiw i fedru dweud o'n calon a chyda rhyfeddod: 'Iesu, rwyf ti'n ddigon ar gyfer fy myw ac ar gyfer fy nhragwyddol obaith'. Amen.

Emyn 325 'Mae Iesu'n fwy na'i roddion'

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

[watcyn@cennad.cymru](mailto:watcyn@cennad.cymru) | [huw@cennad.cymru](mailto:huw@cennad.cymru) | [aled@ysgolsul.com](mailto:aled@ysgolsul.com)

[www.cennad.cymru](http://www.cennad.cymru)



CennadCymru



@CennadCymru